# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 68** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 16 Mawrth 2021 |
| **Amser y Cyfarfod** | **10:30-13:00** |
| **Yn bresennol:** | Howard Davies (CNC, Cadeirydd), Chris Mills (Afonydd Cymru), Ian Doyle (Yr Ymddiriedolaeth Bysgota), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain/Cyswllt Amgylchedd Cymru), David Morgan (Glandŵr Cymru), Phil Stone (Canŵ Cymru), Charles de Winton (CLA), Dr Ken Addison (YDCW), Adrian Walls (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru – hawliau tramwy cyhoeddus), Rachel Evans (Y Gynghrair Cefn Gwlad), Gwenda Owen (Cycling UK), Scott Ashworth (Ystad y Weinyddiaeth Amddiffyn), Arthur Lee (Y Cerddwyr Anabl), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (FUW), Ruth Rourke (Is-gadeirydd y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), John Morgan (Fforymau Mynediad Lleol), Dave Waterman (LARA), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Rachel Lewis-Davies (NFU), Beverley Penney (OSS), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Gerwyn Owen (Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol), Steve Rayner (WATO), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Matthew Williams (WSA), Simon Pickering (LIC), Alison Roberts (CNC), Joe Roberts (CNC), Ruth Jenkins (CNC), Helen Pye (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – cyflwynydd), Carys Drew a Jayne Carter (Ysgrifenyddiaeth CNC), Ann Llwyd (Cyfieithydd). |
| **Ymddiheuriadau** | Neil Buffery (Cymdeithas Yrru Prydain), Stuart France (Cyngor Sir Ceredigion), Mark Davies (Dŵr Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru), Eni Hansen-Magnusson (Sustrans), Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Ben Sears (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) |
| **Arsylwyr** | Graham Taylor (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Powys), Ian Mabberley (Fforwm Mynediad Lleol APCBB), Juliet Michael (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Dave MacCallum (CNC) |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i 68fed cyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, a nododd y trefniadau ar gyfer rheoli'r cyfarfod ar-lein.<br><br>Yn ystod y cyfarfod diwethaf, roeddid wedi cytuno y byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar effaith y pandemig COVID, a'r hyn yr oedd wedi'i olygu ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr, darparwyr a rheolwyr. Nododd y Cadeirydd yr agenda arfaethedig, a oedd wedi'i strwythuro i fynd ar drywydd hynny.<br><br>Aeth y Cadeirydd ati i gyflwyno a chroesawu Helen Pye, Pennaeth Ymgysylltu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, aelod o Fwrdd Europarc Atlantic Isles, ffermwr cig eidion a chyn-warden Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a oedd wedi cael ei gwahodd i rannu ei safbwynt ar y pandemig.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolydd newydd LARA, Dave Waterman, ynghyd ag arsylwyr, i'r cyfarfod. Roedd y rhestr presenoldeb wedi'i dosbarthu ymlaen llaw, a byddai'n cael ei diweddaru yn y nodyn o'r cyfarfod.<br><br>Aeth Carys ati i osod a rhoi prawf ar y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| 2. | **Camau Gweithredu a Materion sy'n Codi**<br><br>Cadarnhawyd bod y camau gweithredu canlynol o'r cyfarfod diwethaf wedi cael eu cwblhau:<br><br>Cam Gweithredu 67.1 Y Cadeirydd/Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys y gwersi a'r cyfleoedd yn sgil pandemig COVID-19 fel eitem o sylwedd ar yr agenda nesaf.<br><br>Cam Gweithredu 67.2 Oherwydd bod yr amser yn fyr, cytunwyd y dylid ymateb i gwestiynau na chawsant eu hateb yn ystod y cyfarfod ar ôl y digwyddiad, ac y byddai'r ymatebion yn cael eu dosbarthu. Carys i weithredu ar hyn<br><br>Cam Gweithredu 67.3 Byddai Carys Drew yn rhoi gwybod i'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol fod y cais yn llwyddiannus, a byddai'n diweddaru'r rhestr aelodaeth. | |

## COVID-19: Y Gwersi a Ddysgwyd o ran Rheoli Ymwelwyr yn Eryri

Helen Pye, Pennaeth Ymgysylltu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dywedodd Helen fod myfyrio ar y flwyddyn a aeth heibio wedi bod yn ddefnyddiol, ac, er ein bod yn dal i fod mewn pandemig ac ar y ffordd allan ohono, fod yna gyfle mawr i ddysgu o'r profiadau yn y broses; aeth ymlaen i rannu persbectif Parc Cenedlaethol Eryri, gan gydnabod nad dyna oedd persbectif pawb.

Aeth ati i fyfyrio ar yr amserlen a'r adeg pan ddechreuodd popeth: penwythnos 20 Mawrth y flwyddyn flaenorol, y cyfeirir ato bellach fel 'Snowdon-gate', oedd y penwythnos prysuraf a brofwyd erioed, ac, yng nghyd-destun COVID, roedd yn destun pryder i'r cymunedau lleol, ac wedi peri ofn gwirioneddol i'r trigolion lleol.

3. Roedd y penwythnos hwnnw yn allweddol o ran llunio'r hyn a ddigwyddodd yn ystod yr ychydig wythnosau dilynol yn Eryri ac ymhellach i ffwrdd. Yn sgil 23 Mawrth a'r cyfyngiadau symud, aed ati i weithredu'n gyflym yn Eryri, gan gau tir mynediad ar 27 Mawrth. Roedd hyn mewn ymateb i farn y cyhoedd a'r cymunedau lleol fod angen gwneud rhywbeth mewn ymateb i'r pandemig, yn ogystal â phryder ynghylch y modd yr oedd y feirws yn lledaenu. Roedd pobl yn wirioneddol ofnus a dechreuwyd gweld pobl yn delio â'r mater yn eu ffordd eu hunain; nododd Helen mai dyma beth sy'n digwydd pan fydd cymunedau'n teimlo bod angen gwneud rhywbeth ond nad yw'r awdurdodau'n gweithredu.

Ystyriai Helen mai'r ymateb yng Nghymru o ran tir mynediad oedd yr ymateb iawn ar y pryd, gan iddo anfon neges gref iawn ledled y DU fod cefn gwlad ynghau am y tro. Her wirioneddol yn sgil y penderfyniad hwnnw oedd effaith cau tir mynediad ar garreg drws y bobl a oedd yn byw yn y Parc Cenedlaethol. Yn y pen draw, daethpwyd i'r casgliad y dylid cau'r safleoedd poblogaidd iawn trwy ddefnyddio data monitro ymwelwyr i nodi pa ardaloedd a fyddai brysuraf, o bosibl, ac felly'n debygol o drosglwyddo COVID.

Er mwyn gweithredu'r mesurau cau, argraffwyd 200 o arwyddion dros nos a chawsant eu gosod ar y safleoedd gan y wardeiniaid. Roedd y sylw a roddodd y DU i'r mesurau cau hyn yn hanfodol o ran ei gwneud yn glir na

ddylai pobl fod yn teithio. Nododd Helen ei bod yn bwysig, ar sail ôl-ddoethineb, ystyried a myfyrio ar yr hyn a fyddai wedi cael ei wneud yn wahanol, a phwysigrwydd hynny.

O ran gwneud penderfyniadau, roedd yn bwysig eu gwneud yn gyflym, ond gan fod yn barod i'w haddasu'n gyflym hefyd. Er mai dim ond 11% o'r tir mynediad yn y Parc Cenedlaethol a oedd ynghau, roedd cau rhai ardaloedd wedi creu her a rhwystredigaeth i gymunedau lleol. Er nad dyna oedd y bwriad, teimlai fel pe bai'r neges yn dweud bod y Parc Cenedlaethol ynghau i'r bobl leol hynny hefyd. Pe byddai wedi bod yn bosibl addasu'n gynt, ac addasu'r ffiniau, byddai hynny wedi bod yn wych.

Pan ddechreuodd pethau ailagor, roedd yna fwriad clir i sicrhau bod croeso i bobl ddod 'nôl, ond roedd yna heriau gwirioneddol oherwydd y pryder parhaus mewn cymunedau lleol ynghylch pobl yn dychwelyd.

Roedd gwers arall a ddysgwyd yn sgil cau ardaloedd penodol wedi amlygu'r ffaith bod pobl yn gwerthfawrogi mynediad i'r awyr agored, a bod cefn gwlad yn bwysig iawn, yn fwy pwysig 'nawr nag erioed o'r blaen; amlygwyd hefyd y gwerth yr oedd pobl a oedd yn byw yn y Parc Cenedlaethol yn ei roi ar allu cael mynediad i leoedd agored.

Roedd yna bryder ac ofn bod cau ardaloedd penodol yn rhan o syniad ehangach i gyfyngu ar ryddid pobl, ond nodwyd bod hyn bob amser yn ateb dros dro o safbwynt APC, a hynny er mwyn anfon neges glir yn dilyn digwyddiadau'r penwythnos.

Problemau'n cynyddu ar eu canfed: nododd Helen fod yr holl faterion yn rhai a welwyd o'r blaen, ond eu bod wedi'u mwyhau'n sylweddol yng nghyd-destun COVID, e.e. gwersylla anghyfreithlon, capasiti cymunedau.

Roedd capasiti a nifer yr ymwelwyr yn broblem enfawr pan agorodd y Parc Cenedlaethol ac ardaloedd eraill unwaith eto, ac ni fu erioed gyfnod mor brysur. Roedd hyn yn ysgogi'r angen i feddwl am y dyfodol, meddwl am beth yw gormod o gapasiti a gormod o ymwelwyr, a'r modd i reoli hynny. Wrth ystyried materion yn ymwneud â gormod o bobl, roedd angen ystyried y modd yr oedd Cymru yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy.

Byddai'n bwysig ystyried bod mwy o ymwelwyr yn costio mwy o arian, a bod angen rheoli effaith yr ymwelwyr hynny. Pe byddem yn gweithio i annog rhagor o ymwelwyr i fwynhau cefn gwlad, byddai angen sicrhau cyllid i gyd-fynd

â hynny. Roedd hyn yn arwain at y cwestiwn: pe byddai angen rhagor o gyllid, faint y byddai ei angen, a sut y byddid yn ei gyllido? Roedd treth twristiaeth, a ddefnyddid yn helaeth yn Ewrop, yn rhesymegol o ran po fwyaf o ymwelwyr a ddeuai, mwyaf o arian a fyddai'n mynd i'r ardal leol ac at fuddsoddi mewn seilwaith; dylai hynny fod wrth wraidd y ffordd o feddwl yng Nghymru.

Roedd gan Gymru, sy'n wlad fach, y gallu i wneud newidiadau dros nos, ac roedd ganddi gysylltiadau da. Os oeddem am i rywbeth ddigwydd, gallai ddigwydd; gallai Cymru arwain y ffordd o ran ymdrin â thwristiaeth gynaliadwy.

Gwneud penderfyniadau: roedd mynd trwy'r broses gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig hefyd wedi darparu gwersi a ffyrdd i wella. Yn y sector cyhoeddus gallai fod yna anhawster wrth wneud penderfyniadau o ganlyniad i fod ag ofn methu – peidio â rhoi pethau ar waith neu dreulio gormod o amser yn siarad am bethau neu wneud pethau'n rhy fawr i gael eu gweithredu. Gwersi o ran y gallu i wneud penderfyniad – dylid ei roi ar waith ac yna ei addasu os na fyddai'n gweithio; felly, awgrymwyd fod yna werth mewn cynlluniau peilot a rhoi cynnig ar bethau ac yna addasu, yn hytrach na cheisio sicrhau perffeithrwydd cyn gweithredu. Rhannodd Helen yr enghraifft o broblemau parcio a thraffig ym Mhen-y-Pass, enghraifft a ystyriwyd yn flaenorol yn rhan o adolygiad trafnidiaeth, a gallwyd rhoi mesurau ar waith yn gyflym a'u haddasu i ddatrys y broblem yn ystod y pandemig; problemau parcio yn un o'r prif feysydd parcio, problemau ar gyfer traffig.

**Pŵer negeseuon cyson** – roedd y dull o gyfathrebu yng Ngogledd Cymru wedi gorfodi pawb i gyd-dynnu a dweud yr un peth. Nododd Helen ei fod yn beth pwerus iawn pan fyddai hyn yn digwydd, a bod yr effaith yn enfawr.

Pan fo negeseuon yn wahanol, mae'n gwneud pethau'n hynod o heriol, e.e. disgwylid y byddai yna wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o ran y rheolau a fyddai'n weithredol adeg y Pasg; byddai hyn yn her fawr i'r Parc Cenedlaethol wrth iddo reoli'r negeseuon hyn a pheidio ag ymddangos fel pe bai'n gwrthwynebu ymwelwyr.

Nid yn unig yr hyn yr oeddech yn ei wneud, ond yr hyn yr oeddech yn ei ddweud. Roedd y Parc Cenedlaethol yn neilltuo'r un faint o adnoddau ar gyfer yr hyn a oedd yn digwydd ar lawr gwlad ag yr oedd ar gyfer y ffordd yr oedd yn cyfathrebu. Roedd cyfathrebu yn cael effaith enfawr, a

rhannodd Helen y darlun o'r arwyddion digidol ar yr A55 pan oedd mynediad ynghau.

**Teimlad y cyhoedd** – dywedodd Helen ei bod yn werth ystyried teimlad y cyhoedd wrth gyfleu'r hyn yr ydym am i bobl ei wneud. Roedd y ffordd yr oedd pobl yn ymateb bryd hynny i negeseuon yn ymwneud â COVID yn wahanol i'r ffordd yr oeddent yn ymateb ym mis Ebrill y flwyddyn flaenorol. Teimlai fod y gefnogaeth gynnar o ran dilyn y rheolau wedi newid neu erydu'n raddol oddi ar fis Tachwedd (cefnogid dilyn y rheolau), a bod yr ymateb i unrhyw beth a oedd yn ymwneud â rheolau yn negyddol erbyn hynny. Roedd angen ystyried ffordd wahanol o wneud pethau. Byddai teimlad y cyhoedd yn bwysig wrth lunio'r hyn y byddem yn ei wneud a'r ffordd y byddem yn mynd ati i'w weithredu i ddylanwadu ar ymddygiad.

Roedd yn bwysig bod y sector cyhoeddus yn ymatebol i deimlad y cyhoedd ac yn amlygu'r ymatebolrwydd hwnnw.

Un nodwedd gadarnhaol a ddeilliodd o COVID oedd nifer y bobl a oedd yn gwirfoddoli i gasglu sbwriel, gan amlygu eu cariad at y Parc Cenedlaethol, tirweddau gwarchodedig a chefn gwlad, ac a oedd am helpu.

Manteision y byd rhithwir: nodwedd gadarnhaol o'r orfodaeth i weithio ar-lein oedd bod unigolion yn fwy hygyrch i ryw raddau, gan sicrhau mwy o ymgysylltiad trwy wneud pethau mewn modd rhithwir. Ni allai dulliau traddodiadol o ymgynghori gyrraedd pawb, ac roedd yna allu i roi pethau ar waith yn gyflym.

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y system gyfieithu yn gweithio, a nododd nad oedd yn bosibl cynnal y cyflwyniad yn y ffordd a fwriadwyd er gwaethaf yr ymdrechion y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod pethau'n gweithio.

**Holi ac Ateb:**

Cwestiwn: A oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gynlluniau brys ar waith ar gyfer cau ardaloedd penodol a oedd yn briodol ar gyfer COVID?

Ateb: Roedd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gynlluniau adferiad yn dilyn trychineb ar waith, cynlluniau a ddefnyddiwyd yn sail i reoli prosesau yn ystod y pandemig. Roedd y cynlluniau hyn yn rhai penodol ar gyfer pandemig. Wrth i bethau fynd rhagddynt, dysgwyd llawer am yr hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio; roedd yn rhaid symud yn gyflym i system ar gyfer sicrhau bod staff swyddfeydd yn gallu gweithio o bell. Wedi treulio'r gaeaf yn

paratoi ar gyfer y gwanwyn, byddent yn myfyrio ymhellach ar yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau hyn.

Cwestiwn: Roedd yna bryder bod yr iaith wedi bod yn negyddol tuag at ymwelwyr gan fod angen diogelu'r parc rhag pobl a phroblemau ymhobman. Nodwyd ei fod yn beth cadarnhaol ac iach i bobl ddod i gefn gwlad. Roedd angen buddsoddi'n briodol mewn seilwaith yn hytrach na beio'r ymwelwr am fod arnynt eisiau mwynhau; dylai fod yna bwyslais ar fwynhau mewn modd cynaliadwy a diogel.

Ateb: Roedd yna gydbwysedd o ran iaith y negeseuon, ac roedd y Parc Cenedlaethol wedi cael sylwadau gan y ddwy ochr, gyda rhai yn ystyried bod y negeseuon yn rhy negyddol tuag at ymwelwyr ac eraill nad oeddent yn ddigon cryf.

Roedd yna newid o ran y teimlad a'r hyn a oedd yn gweithio y tymor hwnnw, gyda'r negeseuon yn canolbwyntio ar gynllunio ymlaen llaw. Wrth adolygu'r materion a achosodd broblemau y flwyddyn flaenorol, roedd llawer o'r rhain yn deillio o beidio â chynllunio, e.e. gwersylla anghyfreithlon, ac o ddiffyg gwybodaeth a diffyg cynllunio ymlaen llaw. Byddai pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn hyrwyddo negeseuon ynghylch cynllunio ymlaen llaw, gan fod yn fwy cadarnhaol a newid y dôn i adlewyrchu'r ffaith bod pobl wedi diflasu ar bobl yn dweud wrthynt beth i'w wneud.

Roedd y flwyddyn flaenorol wedi tynnu sylw at y ffaith y dylai twristiaeth fod yn dwristiaeth trwy gydsyniad, a bod angen ystyried y cymunedau a oedd yn byw yn y parciau cenedlaethol. Yn hytrach na rhywbeth a oedd yn cael ei orfodi ar gymunedau, ac ystyried y cymunedau cyfan. Roedd y bwlch yn yr ymwelwyr dros yr haf wedi cynyddu'r ymdeimlad bod yna ormod o dwristiaeth, ac, er bod angen buddsoddi mewn seilwaith, ni fyddai hynny fyth yn ddigon pe byddai swm y twristiaid yn 'ormod'.

Cwestiwn: A oedd pobl yn meddwl bod Awdurdod y Parc yn manteisio ar y sefyllfa pan oedd pethau ynghau? Sut yr aeth y Parc ati i reoli ei statws eiconig a'i ardaloedd poblogaidd o gymharu â gweddill y Parc Cenedlaethol?

Ateb: Roedd ceisio sicrhau bod y cydbwysedd yn iawn yn her; roedd yn bwysig bod y gymuned yn gefnogol ac yn ymateb i'w heriau. O ran APC, roedd yn ymwneud â delio â'r heriau a oedd yn bodoli yn hytrach nag agenda gudd.

Mae rheoli ardaloedd poblogaidd yn gymhleth. Roedd yn bwysig peidio â meddwl mai'r ateb syml oedd dargyfeirio

pobl i rywle arall i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd poblogaidd. Os nad oedd y seilwaith a'r llwybrau mor gadarn mewn mannau eraill, byddai hyn yn arwain at broblemau (erydiad, parcio) yn rhywle arall. Cyfleoedd i ddarganfod yr hyn a oedd yn gwneud ardaloedd yn arbennig, lle byddai cymunedau'n dymuno gweld rhagor o ymwelwyr.

Cwestiwn: Gyda rhagolygon am haf prysur, pa benderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud 'nawr a fydd yn cefnogi pobl sy'n rheoli cefn gwlad a'r rheiny sy'n ymweld â chefn gwlad?

Ateb: Yn ôl pob tebyg, roedd y penderfyniadau yr oedd angen iddynt gael eu gwneud ymlaen llaw wedi cael eu gwneud yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, byddid yn delio â'r heriau a fyddai'n deillio o'r pwysau ychwanegol ar gefn gwlad. Her wirioneddol yr oedd angen i Gymru ei hystyried, ac a oedd yn ymwneud â deddfwriaeth, oedd gwersylla anghyfreithlon (sy'n wahanol i wersylla gwyllt). Roedd cynulleidfa newydd yn dod i'r amlwg, gyda chynnydd o 350% yn y grŵp 18-24 oed a oedd wedi dod i gefn gwlad y flwyddyn gynt; nid oedd llawer ohonynt ar incwm uchel ac felly roeddent yn dibynnu ar wersylla i gael llety. Disgwylid y byddai gwersylla anghyfreithlon yn her wirioneddol y flwyddyn honno, ac roedd angen i Gymru ystyried y modd i fynd i'r afael â hynny yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Ar ran y Fforwm, diolchodd y cadeirydd i Helen am ei mewnwelediad a'i phrofiad ac am amlygu'r manylion a'r heriau.

Nododd Simon Pickering y byddai ymgyrchoedd Croeso Cymru a oedd i ddod yn seiliedig ar 'Addo', addewid a oedd yn ceisio cyfuno delweddau cadarnhaol o bobl yn mwynhau cefn gwlad â negeseuon am barchu cefn gwlad.

Cwestiynau pellach a atebwyd yn y swyddogaeth sgwrsio ar ôl yr eitem:

Cwestiwn: A ydym yn deall digon am y sector newydd hwn o'r boblogaeth sydd wedi'i ysgogi gan y cyfyngiadau/godi'r cyfyngiadau COVID i fwynhau'r awyr agored? Mae hwn yn weithgaredd newydd i lawer, felly nid ydynt yn gwybod sut i gynllunio ymlaen llaw. Ble y gellir cael gwybod i ble y gallant fynd? Beth y gallant ei wneud? A oes angen i'r sector ddatblygu ffyrdd newydd o gyrraedd y bobl hyn, a'u helpu i wneud penderfyniadau da ar eu cyfer eu hunain, y cymunedau lleol a'r amgylchedd?

Ateb: Roedd y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi gwneud llawer o waith ymchwil y flwyddyn flaenorol, ac wedi rhannu hynny â'i gilydd. Roedd yr ohebiaeth y flwyddyn honno wedi'i chynllunio o amgylch hyn, o ran llunio'r negeseuon a hefyd o ran y modd yr oeddem yn ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd hyn, h.y. roedd llawer o'r cynulleidfaoedd iau ar Instagram/TikTok, felly dyna lle roedd angen ymgysylltu â nhw, a hynny mewn ffordd a oedd yn ddiddorol iddynt.

Roedd Croeso Cymru wedi trefnu cyfarfodydd cydweithredol rheolaidd i lunio negeseuon â chyfathrebwyr rheoli cefn gwlad ledled Cymru – roedd y rhain wedi bod yn hynod o ddefnyddiol y flwyddyn flaenorol, ac roeddent yn sicr o fod yn ddefnyddiol y flwyddyn honno hefyd. Byddai hyn yn ein galluogi i addasu wrth i ni symud ymlaen.

Cwestiwn: A allwch hefyd gynnwys parch tuag at berchnogion tir os gwelwch yn dda, a phwysleisio'r cod cefn gwlad ... fel bod sbwriel yn cael ei godi, giatiau yn cael eu cau, cŵn yn cael eu cadw dan reolaeth, ac ati?

Ateb: Roedd hynny'n bendant yn rhywbeth yr oeddem yn ei blethu i mewn i'n negeseuon (mewn ffordd ddiddorol!), ac roedd hefyd yn rhan o'r ymgyrch Addo.

Cwestiwn: Sut y mae'r parc yn bwriadu manteisio ar y gwersi a ddysgwyd wrth symud ymlaen?

Ateb: Roedd llawer iawn o waith wedi cael ei wneud y tu ôl i'r llenni dros y gaeaf, o ymgyrchoedd cyfathrebu i wirfoddoli, a gweithio'n agosach gydag Awdurdodau Lleol wrth fynd i'r afael â phethau megis gwersylla anghyfreithlon a pharcio, a chafwyd cefnogaeth enfawr gan Lywodraeth Cymru. Byddem yn bwriadu cyhoeddi diweddariad ar hyn yn ein newyddlen yr wythnos ganlynol (y gellid cofrestru ar ei gyfer ar ein gwefan).

Cwestiwn: Cwestiwn i Simon Pickering ynglŷn â Diwygio Mynediad: pryd y bydd y dogfennau interim yn cael eu cyhoeddi? Dywedwyd y gellid eu disgwyl ym mis Chwefror, ond nid ydynt wedi ymddangos ar wefan llyw.cymru hyd yma. Yn benodol nid yw cymuned y rhanddeiliaid/defnyddwyr ehangach wedi gweld yr Adroddiad ar Ddetholiad Opsiynau Grŵp Arbenigwyr 1 o hyd.

Ateb: Roedd dogfennau/adroddiadau yn cael eu cyfieithu a'u fformatio i'w cyrchu ar y pryd. Roeddent i fod ar wefan LIC yn fuan.

## Aeth yr aelodau ati i rannu profiadau – yn seiliedig ar gyfraniadau ysgrifenedig ar COVID-19

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am y cyfraniadau ysgrifenedig hyd hynny, a nododd bod ymatebion wedi dod i law gan aelodau ar ffurf cyfraniadau ysgrifenedig. Gwahoddodd yr aelodau i gynnal trafodaeth agored yn seiliedig ar y rhain, ac, yn arbennig, croesawodd adborth a mewnwelediad i gymuned y perchnogion tir, ynghyd â meddyliau gan y rhai a oedd yn cynrychioli ffermwyr a pherchnogion tir nad oeddent wedi cyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig.

**Trafodaeth**

4. Dechreuodd Rachel Lewis-Davies trwy ddweud mai trwy gydol profiad COVID, mynediad cyhoeddus a hamdden oedd un o'r materion allweddol a ddaeth gerbron yr undeb ffermio gan sefydliadau aelodaeth. Gan gysylltu â rhai o'r materion a nodwyd yn y cyflwyniad, roedd yr aelodau wedi gweld cynnydd yn y defnydd, ac roedd yna bryder ynghylch y pellteroedd yr oedd pobl, yn ôl pob tebyg, yn eu teithio i gyrraedd mynediad cyhoeddus. Roedd yna lefelau uchel o bryder, yn enwedig ymhlith teuluoedd ffermio lle roedd aelodau'r teulu'n agored i niwed ac mewn perygl o gael COVID, yn ogystal â phryderon lle roedd hawliau tramwy cyhoeddus yn mynd trwy fuarth fferm. Yn gynnar yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd undebau ffermio yn cyfleu pryderon i LIC a CNC, ac yn darparu sesiynau briffio wythnosol i'r aelodau, ynghyd ag arwyddion.

Roedd wedi ffocysu meddyliau pobl ar yr hyn yr oeddent yn ei fwynhau, ynghyd â mynediad i gefn gwlad. Yr hyn a oedd wedi dod yn amlwg oedd nad oedd y bobl hynny a oedd wedi dechrau defnyddio mynediad am y tro cyntaf yn ymwybodol, o bosibl, o'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n dod yn sgil hynny, a bod hynny'n arwain at broblemau, e.e. sbwriel, gwersylla anghyfreithlon. Yn gyffredinol, roedd wedi amlygu diffyg hyblygrwydd yn y system gyfredol, a chwestiwn allweddol ar gyfer y dyfodol oedd: sut y gallai'r gwersi a ddysgwyd yn sgil COVID gael eu hadlewyrchu yn y gwaith a oedd ar y gweill gan y grŵp diwygio mynediad; roedd yna awydd i weld y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn cynigion yn y dyfodol.

Nododd y Cadeirydd y byddai'r modd y byddem yn symud ymlaen â hyn yn rhan o'r drafodaeth, ynghyd â'r hyn yr oedd y fforwm mynediad yn ei wneud, a'r broses o gasglu

gwybodaeth, ei dal mewn un lle a gwneud defnydd da ohoni, ac y byddai hyn yn cael ei drafod yn yr eitem nesaf.

Gwahoddwyd Alison Roberts i dynnu sylw at bwyntiau o’i chyfraniad ysgrifenedig ar adnewyddu'r Cod Cefn Gwlad, dan arweiniad NE (Natural England) yn bennaf. Roedd CNC wedi cydweithredu ag NE i sicrhau bod y geiriad yn gywir ac yn berthnasol ar gyfer y math o ddefnydd o gefn gwlad a ddisgwylid yn y dyfodol. Roedd y broses yn mynd trwy'r cam cymeradwyo ar y pryd; nid oedd yna unrhyw newidiadau sylweddol gwirioneddol i'r cod byr, roedd yr ychwanegiadau ac unrhyw newidiadau wedi'u hamlygu mewn melyn yn y cyfraniad ysgrifenedig; roedd yna fwy o newidiadau yn y cod hir o ran natur gadarnhaol yr iaith, ei wneud yn gliriach, yn llai geiriog ac yn haws ei ddefnyddio. Rhagwelid y byddai'r cod diwygiedig yn cael ei lansio ar 22 Mawrth. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, roedd CNC yn bwriadu gwneud diweddariadau ychwanegol i'w adnoddau cod cefn gwlad ei hun, gan ganolbwyntio ar ei wefan ei hun, ac ati, a sicrhau bod dolenni'n cael eu rhannu'n eang fel bod partneriaid yn gweld negeseuon newydd mewn pryd ar gyfer codi'r cyfyngiadau, a hefyd yn unol â phartneriaid yn Lloegr. Bwriadai hefyd sicrhau diweddariadau dwyieithog mewn pryd. Roedd Alison yn gweithio'n agos gyda'r uned gyfathrebu a oedd yn archwilio opsiynau ar gyfer rhannu gwaith dylunio ag NE. Byddai'r cod a'r wybodaeth yn cael eu rhannu trwy'r Fforwm a'r aelodau.

Gwahoddwyd Simon Pickering i roi sylwadau ar ddiwygio mynediad a'r gwersi a ddysgwyd; roedd LlC yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r pwysau a'r gwaith caled. Prif ffocws y gwaith diwygio mynediad fu'r grŵp cynghori ar ddiwygio mynediad, wrth i grwpiau annibynnol lunio meddyliau ac arbenigedd mewn meysydd posibl ar gyfer yr adroddiad yn y dyfodol. Roedd CNC yn cydgysylltu'r adroddiad terfynol, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Gweinidog yn fuan. Roedd profiad COVID eisoes wedi llunio'r broses, a hynny’n fwyaf amlwg trwy'r gwaith thema trawsbynciol; er mai'r bwriad bob amser oedd y byddai themâu trawsbynciol yn dod i'r amlwg, ynghyd â gweithgareddau hamdden cyfrifol, roedd hyn wedi datblygu yn sgil y broses trwy COVID. Ymhen ychydig fisoedd byddai Llywodraeth newydd mewn grym, a byddai'n rhaid aros i weld beth a fyddai'n dod o hynny. Roedd cysylltiadau wedi dechrau cael eu llunio, ac roedd yn debygol yr eid ar eu trywydd wrth symud ymlaen.

Tynnodd Simon sylw at ymgyrch Addo, sef ymgyrch drosfwaol Croeso Cymru yr oedd yr holl waith hyrwyddo yn ymwneud â pharchu twristiaeth gynaliadwy a negeseuon a

oedd yn cysylltu'n agos iawn â'r cod cefn gwlad ac yn delio ag ardaloedd trefol hefyd. Roedd yr elfen o'r ymgyrch Addo a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu cadarnhaol yng nghefn gwlad ar fin cael ei lansio, ac roedd iddi negeseuon cadarnhaol yn ymwneud â pharch a chyfrifoldeb. Byddai hynny'n dechrau yn yr wythnos neu ddwy ganlynol.

**Egwyl**

Yn ystod yr egwyl, newidiwyd y llinell ffôn ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu, a chadarnhawyd ei bod yn gweithio. Ar ôl dychwelyd yn dilyn yr egwyl, anogwyd yr aelodau i siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## 5. Aeth yr aelodau ati i rannu profiadau – yn seiliedig ar gyfraniadau ysgrifenedig ar COVID-19

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod detholiad o gyfraniadau ysgrifenedig yn adnodd gwerthfawr, ac anogodd gyfraniadau ysgrifenedig pellach. Darparwyd pythefnos ychwanegol ar gyfer dyddiad cau terfynol i'r aelodau rannu'r ffyrdd gorau o feddwl ynghylch effeithiau COVID. Pawb

**Cam Gweithredu 68.1 Yr aelodau i ddarparu cyfraniadau ysgrifenedig erbyn 30 Mawrth**

5. Esboniodd y Cadeirydd mai pwrpas yr eitem hon oedd mynd ar drywydd y trafodaethau am yr effaith, ac edrych i'r dyfodol yn seiliedig ar yr hyn y gallem ni, y Fforwm, ei wneud.

Wrth fyfyrio ar ei brofiad o weithio yng Nghymru a Lloegr, nododd y Cadeirydd fod y sefyllfa yng Nghymru, ynghyd â bodolaeth Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig. Er bod yna densiynau posibl yn bodoli bob amser wrth ddod â grŵp mawr o bobl at ei gilydd, sydd â diddordeb mewn pynciau a allai fod yn wrthgyferbyniol, ystyriai fod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn dwyn ynghyd grŵp da iawn o bobl o amgylch y bwrdd.

Gan gofio cyflwyniad Helen, y profiad mewn mannau eraill a'r ffaith ein bod bellach yn cael ein rhyddhau o'r cyfyngiadau symud, gofynnodd y Cadeirydd y cwestiwn:

‘Pe byddem yn edrych yn ôl ar yr amser hwn ac yn cytuno bod y Fforwm wedi ymateb a gweithredu yn gwbl gywir – sut olwg a fyddai ar hynny mewn gwirionedd?

A oes gennym fwy o rôl wrth ymateb i'r pwysau sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â mynediad o ganlyniad i'r pandemig hwn? A oes angen i ni roi rhywbeth ar bapur neu wneud rhywbeth mwy pendant?

Roedd Helen Pye wedi pennu'r cefndir ar gyfer ystwythder a chynlluniau peilot, a gwyddom fod y rhaglen diwygio mynediad yn parhau. A oes yna unrhyw beth arall y dylai'r Fforwm ei wneud?' Yna gofynnodd am syniadau ynghylch y camau nesaf a'r hyn y gallem ni, y Fforwm, ei wneud.

**Trafodaeth**

Dywedodd Rebecca Brough mai'r hyn a oedd ar goll yn ystod camau cychwynnol y pandemig oedd nad oedd y Fforwm wedi dod ynghyd i drafod yr hyn a oedd yn digwydd, ond roedd yn ymwybodol bod yna fforwm dan arweiniad NE i gadw pobl mewn cysylltiad, a oedd wedi dwyn rhanddeiliaid ynghyd. Roedd yna lawer o densiynau, ac efallai y byddai wedi helpu pe byddai pobl wedi dod ynghyd. Teimlai fod hyn wedi arwain at y rhanddeiliaid yn cilio i'w corneli eu hunain yn hytrach na chydweithio. Rhannodd enghraifft o gyhoeddusrwydd negyddol ar ôl cyhoeddiad camarweiniol llun o grŵp o gerddwyr a dynnwyd ar adeg wahanol o'r flwyddyn ac a gafodd gyhoeddusrwydd eang. Achosodd hyn lawer o densiynau, a byddai wedi bod yn beth da dod â'r sector mynediad at ei gilydd i'w lleddfu.

Yn ateb i hyn, awgrymwyd y dylid trefnu ffordd fwy hyblyg o drafod y tu allan i'r cyfarfodydd a sicrhau ymgysylltiad â'r rhanddeiliaid, yn hytrach na chyfarfodydd strwythuredig ffurfiol bob tri mis – a oedd yn amser hir rhwng cyfarfodydd. Cyfarfod anffurfiol mwy rheolaidd, o bosibl.

Sylw yn y swyddogaeth sgwrsio: Roedd yna botensial i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gwrdd ar sail *ad hoc* – fel y digwyddodd yn achos COVID. Gallai'r aelodau gynnig cyfarfod o'r fath pe byddent yn teimlo bod sefyllfa'n bwysig a bod angen i'r Fforwm ei thrafod.

Awgrymodd Adrian Wells fod y rhyngwyneb rhwng y rhanddeiliad a'r gymuned defnyddwyr wedi bod yn wan trwy gydol COVID. Trwy'r broses, roedd y staff hawliau tramwy wedi clywed llawer gan drigolion lleol ac wedi cael eu tynnu i mewn i ddelio â phroblemau. Gallai Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gyflawni rôl ddefnyddiol trwy geisio dwyn ynghyd gyfuniad o ddyheadau'r gymuned defnyddwyr a chymuned y tirfeddianwyr.

Awgrymodd Peter Rutherford y dylai'r Fforwm hyrwyddo arfer da ac arferion cynaliadwy mewn perthynas â rheoli mynediad yng Nghymru. Dylai fod yn cefnogi negeseuon y cod cefn gwlad a pharch at yr amgylchedd. Nhw oedd y bobl ddelfrydol i wneud hyn ar y lefel genedlaethol, ac er y trafodid hyn yn y Fforymau Mynediad Lleol, roedd gan Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gylch gwaith ehangach. Roedd llawer o bobl wedi ailddarganfod eu rhwydweithiau a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr. Roedd yn bwysig ar gyfer yr agenda iechyd a llesiant, ac roedd angen adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd yn dilyn y cyfyngiadau symud.

Dylai'r datrysiadau gynnwys ystyried y modd y byddem yn rhannu arfer da yn effeithiol, sicrhau rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus mwy cydgysylltiedig ar draws ffiniau, a llenwi cysylltiadau coll a oedd yn anodd ar y pryd oherwydd y fiwrocratiaeth ynghylch clymu cysylltiadau â'i gilydd. Y gobaith oedd y byddai ARAG yn helpu a bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith; roedd hefyd angen ystyried llwybrau hygyrch i bawb.

John Morgan: o ran materion lleol, dylai fod gan awdurdodau eu Fforymau Mynediad Lleol; roedd llawer o awdurdodau lleol yn dibynnu arnynt i gael gwybodaeth ar gyfer adfer; awgrymodd y dylid ailbenodi Fforymau Mynediad Lleol.

Dywedodd Charles de Winton fod themâu pwysig wedi cael eu crybwyll, themâu yn ymwneud â pharch at eiddo pobl, ac roedd yn falch o glywed bod LlC yn mynd i'r afael â hyn yn ei hymgyrch gyhoeddusrwydd. Roedd rheolaeth a negeseuon gofalus yn bwysig. Rôl Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru o ran gwneud pethau ychydig yn wahanol yng Nghymru gyda phroses ARAG; roedd y mater o lunio negeseuon yn dangos yn glir y gallai'r rheolau yng Nghymru fod yn wahanol i'r rheiny yn Lloegr; problemau'n ymwneud â chodi'r cyfyngiadau mewn modd gwahanol – efallai y byddai'r rheolau'n newid ond na fyddai pobl nad oeddent yn byw yng Nghymru yn gyfarwydd â'r rheolau hynny. Roedd angen i negeseuon fod yn glir i bobl a oedd yn ymweld â Chymru, ac roedd angen i'r system fod ar waith i roi cyhoeddusrwydd i'r rheolau newydd y tu allan i Gymru. Yn achos yr aelodau a oedd yn byw ar gyrion trefi, roedd hefyd yn glir bod lle y gallent fynd yn brofiad newydd yr oeddent wedi'i ddarganfod yn ddiweddar; roedd yn bwysig cyfleu'r neges bod disgwyl i bobl ymddwyn mewn

ffordd benodol, ac roedd yn bwysig defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r negeseuon.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd rôl arweinyddiaeth CNC, a sut yr oeddem yn gweithio dros y ffin gydag NE ac asiantaethau twristiaeth eraill.

Nododd Ruth Jenkins ei bod yn glir bod gan CNC rôl, bod yna fuddion i bobl gael mynediad i'r awyr agored yn rhan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bod twristiaeth gynaliadwy a rheoli ymwelwyr yn rhan o hynny. Po fwyaf o werth a roddir ar fwynhad, gwell y mae pobl yn deall cyfraniad.

Roedd gan CNC a'r Fforwm rolau i gefnogi'r agweddau diwylliannol ac ymddygiadol er mwyn cefnogi ymwelwyr newydd â'r awyr agored i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol yn yr awyr agored.

Rodd gan CNC nifer o rolau, gan gynnwys cefnogi'r Fforwm, a rheoli llawer o dir a'r mynediad ar y tir hwnnw. Yn ystod y flwyddyn, daethpwyd ynghyd â rheolwyr eraill i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau, ac i ddarparu persbectif cenedlaethol a helpu eraill i wneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch mynediad a reolid trwy gyfnodau anodd y pandemig.

Yn achos asiantaethau eraill, roedd yna rôl fawr o ran cydweithredu, ynghyd ag egwyddorion allweddol o ran cyfathrebu ynghylch rheoli mynediad. Roedd yna gyfle i gefnogi'r Fforwm pe byddai yna uchelgais ehangach o ran yr hyn y gallai'r Fforwm ei wneud wrth symud ymlaen i'r broses adferiad a rheoli materion mynediad yn y dyfodol.

Myfyriodd Joe Roberts ar y ffaith bod y sefyllfa'n unigryw bellach o ran cyfathrebu; roedd ymgyrch Addo Croeso Cymru yn cynrychioli newid yn y gwaith cysylltiadau yr oeddent yn ei wneud bryd hynny i integreiddio â negeseuon hamdden cyfrifol; roedd y negeseuon am y cod cefn gwlad yn eithriadol o dda ac yn bellgyrhaeddol. Roedd Croeso Cymru yn defnyddio ei sgiliau i gyfathrebu â chymunedau y tu allan i Gymru, a hynny mewn ffordd nad oedd yn bosibl o'r blaen, felly roedd y rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol iawn.

Bu yna rywfaint o gyfathrebu da trwy'r broses â Dominic Driver o'r Tîm Arweinyddiaeth, a oedd yn gweithio ar reoli tir, ac wedi cadw cysylltiad â chyrff rheolwyr tir. Nodwyd eisoes y byddai cyfathrebu ehangach gan yr holl gynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn. Wrth siarad am negeseuon ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol,

roedd yna dueddiad i'w grwpio gyda'i gilydd, ac roedd y cod yn ymdrin ag ystod eang o faterion. Yn achos y Fforwm, byddai'n dda tynnu sylw at faterion penodol; pe byddai gennym ffordd o flaenoriaethu ein negeseuon allweddol, yna dylid defnyddio mewnwelediadau ymddygiadol a defnyddio'r ffocws hwnnw i ganolbwyntio ar feysydd lle roedd gennym y broblem fwyaf; gallai'r cydweithredu a'r gwaith ar y cyd hwnnw fynd â phethau ymhellach er mwyn galluogi ffocws strategol ar y meysydd hynny yr oedd angen mynd i'r afael â nhw fwyaf.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi gweld newidiadau wrth i CNC fanteisio ar allu gwyddonwyr cymdeithasol i helpu'r drafodaeth, i helpu o ran yr agweddau diwylliannol ac ymddygiadol i fynediad yr oedd yn werth canolbwyntio arnynt.

Aeth y Cadeirydd ati i grynhoi rhai o'r pwyntiau, gan ddechrau ffurfio'r modd y gallai'r fforwm symud pethau ymlaen:

- Arweinyddiaeth a hyrwyddo
- Cysylltu ag asiantaethau sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr, e.e. y cod cefn gwlad
- Cyfathrebu allanol
- Y rhwydwaith cyfathrebu mewnol i fod yn chwim ei droed (heb fod angen cynnal cyfarfod ffurfiol o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru). Awgrymwyd y dylid sicrhau mecanwaith cyflymach, llai trwsgl ar gyfer gweithio fel Fforwm.
- Pwyslais ar agweddau a newid ymddygiadol a diwylliannol allanol
- Negeseuon allweddol â blaenoriaeth

Gwahoddodd y Cadeirydd Steve Rayner, yn dilyn ei gyfraniad ysgrifenedig, i rannu meddyliau am effaith COVID ar fusnesau, yn enwedig busnesau twristiaeth antur, a'r modd yr oeddent wedi goroesi dros y flwyddyn flaenorol a sut olwg a oedd ar eu dyfodol.

Nododd Steve Rayner fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn drychineb i ddarparwyr gweithgareddau, gyda phopeth yn cau fis Mawrth diwethaf. Agorwyd pethau am gyfnod byr ym mis Gorffennaf, ar ddiwedd y tymor, gan ddarparu cymorth bryd hynny i gwsmeriaid gwahanol – llawer o grwpiau teulu bach – a oedd yn achubiaeth am ddau i dri mis ac a alluogodd rhai busnesau i barhau. Bu tymor y gaeaf yn dawel iawn, ac roedd rhai o'r canolfannau addysg awyr agored yng Nghymru ynghau trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Ni fyddid yn gwybod beth oedd yr effaith lawn o

ran faint o'r darparwyr llai a fyddai wedi goroesi pan fyddent yn dechrau gweithredu eto; y rhwystredigaeth gyfredol oedd y diffyg trywydd clir ar gyfer ailddechrau'r busnesau hyn, diffyg cynllunio a rhagolwg. Nid oedd aelodau unigol o staff yn mynd allan cymaint ac, o'r herwydd, roedd yn bosibl y byddai sgiliau'n pylu ymhlith y staff nad oeddent wedi gallu mynd allan i'r awyr agored; nid oedd hyfforddwyr yn cael eu prosesu, a dywedodd y byddai 2021 yn flwyddyn anodd i ddarparwyr.

Cafwyd effaith gynyddol ar y sector masnachol nad oedd yn cael ei hystyried, o bosibl, yn nhermau defnydd masnachol. Roedd cau APCBB wedi effeithio ar ddarparwyr gan na allent gael mynediad i'r awyr agored wrth i gyfyngiadau teithio LIC gael eu codi.

Rôl y Fforwm oedd cadw'r sector ym meddyliau pobl, roedd yn rhan bwysig o'r jig-so o bawb yn gwneud penderfyniadau; cydnabuwyd bod yn rhaid i iechyd y cyhoedd ddod gyntaf ond nodwyd yr effaith gynyddol ar rai sectorau.

Nododd Elfyn Jones fod APCBB bellach wedi dileu'r gorchmynion i gau tir mynediad, a bod yna ddiweddariad ar ei wefan. Neges allweddol y canolfannau awyr agored oedd bod llawer o'r materion a drafodwyd yn ymwneud ag ymddygiadau, mewnlifiad enfawr o ardaloedd trefol neu o bobl ag agwedd drefol. Byddai'r bobl a fyddai'n dod i gefn gwlad yn cael eu profiad cyntaf mewn canolfannau awyr agored, ac roeddent wedi bod yn gefnogol i'r ymgyrch i achub canolfannau o'r fath. Roedd gan y canolfannau hyn rôl bwysig o ran addysgu pobl ifanc cyn iddynt fynd i gefn gwlad ar eu pen eu hunain, a hynny trwy roi sgiliau ymddygiad iddynt, nid dim ond sgiliau gweithgarwch. Nid oedd cau'r canolfannau hyn yn broblem newydd gan fod tanariannu enfawr wedi arwain at gau canolfannau dros y 5-10 mlynedd diwethaf ac yn amlygu'r broblem ynghylch addysg ac ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd fod ar bobl a oedd yn dod o ardaloedd trefol angen darpariaeth nid yn unig yng nghefn gwlad ond bod yna hefyd rôl i ddarparu mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol.

Awgrymodd Adrian Walls dueddiadau ledled y wlad mewn perthynas â'r defnydd anghyfreithlon o foduron oddi ar y ffordd, fel y nodwyd yn ei ddiweddariad ysgrifenedig. Ymddangosai bod arfordir gorllewinol Cymru wedi gweld lleihad yn y defnydd, tra bu cynnydd yn y defnydd ar ochr ddwyreiniol Cymru. Ni allai beiciau modur deithio i

ganolbarth Cymru, a chafwyd ffrwydrad o weithgarwch mewn rhai ardaloedd. Roedd wedi gweld cynnydd yn y defnydd anghyfreithlon o foduron; gallai hyn fod yn ddefnydd anghyfreithlon lleol. Ymddangosai bod yna fewnlifiad o Loegr hefyd.

Nododd Gwenda Owen mai rhai o ganlyniadau anfwriadol cau canolfannau llwybrau beicio a'r cyfyngiadau ar deithio oedd cynnydd o ran adeiladu llwybrau beicio a mwy o feicio mynydd yn cael ei weld yn Ne-ddwyrain Cymru. Gwelwyd mwy o ddifrod i'r rhwydwaith llwybrau ceffylau oherwydd y tywydd gwlyb trwy'r gaeaf.

Dywedodd Peter R fod rhai traciau wedi cael eu hadeiladu ar eiddo preifat heb gydsyniad y tirfeddiannwr; o dan atebolrwydd deiliaid gallent fod yn gyfrifol yn y pen draw.

**Cam Gweithredu 68.1:** Yr aelodau i gyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig.

Nododd y Cadeirydd y pwyntiau o ran ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y Fforwm, ac i gadw mewn cof y nod o gadw'r sector yn fyw o ran adferiad gwyrdd. Roedd yn debygol y byddai hyn yn dod yn fwy heriol yn ystod y flwyddyn i ddod wrth i lai o bobl deithio dramor a mwy o bobl aros yn y DU.

Sylwadau pellach yn y swyddogaeth sgwrsio:

- Sut yr ydym yn cipio, coladu a dysgu o wersi'r llynedd a'r rhai a fydd yn dod i'r amlwg eleni. Ai Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yw'r corff i oruchwylio datblygiad dealltwriaeth genedlaethol a fydd yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a thwristiaeth yn addas at y diben yn y dyfodol?
- Mae yna botensial i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gwrdd ar sail *ad hoc* – fel y digwyddodd yn achos COVID. Gall yr aelodau gynnig cyfarfod o'r fath os byddant yn teimlo bod sefyllfa'n bwysig a bod angen i'r Fforwm ei thrafod.
- Wrth symud ymlaen, mae'n amlwg, gobeithio, y bydd y rhai sydd wedi canfod buddion cael mynediad i'r awyr agored yn parhau i wneud hynny, ac y bydd yn beth da os bydd olynydd cynllun y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn gallu mynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau ychwanegol y mae hyn yn ei roi ar dirfeddianwyr.
- Y modd yr ydym yn cysylltu fel fforwm â'r gwaith Adferiad Gwyrdd sy'n cael ei ddatblygu gan adran wahanol yn Lywodraeth Cymru.

- Buddion yr Awyr Agored/rôl Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru: sut yr ydym yn uno'r pwnc hamdden ar lefel genedlaethol/y llywodraeth, sy'n cael sylw ar hyn o bryd mewn amrywiol fforymau, e.e. Mynediad, Twristiaeth, Chwaraeon a, heb os, nifer o rai eraill – ymhle y mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn ffitio?
- Roedd llawer ohonom yn gobeithio y byddai yna opsiynau cadarn yn olynydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar gyfer cyfleoedd mynediad er budd y cyhoedd. Nid yw'r Papur Gwyn yn dangos unrhyw beth o ran mynediad a lles y cyhoedd.
- Yn siomedig, nid yw'r papur gwyn Amaethyddiaeth yn amlygu unrhyw fwriad i gynnwys mynediad yn rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – dim trawsgydymffurfedd o hyd i helpu i ddelio â phroblemau mynediad ar dir preifat.
- Mae'r ymgynghoriad ynghylch Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn agored tan 26/3/21. Anogir pawb i gyflwyno eu barn. Gweler: https://llyw.cymru/bil-amaethyddiaeth-cymru
- Pwysigrwydd negeseuon ac arwyddion cyson y gellir eu brandio at ddefnydd lleol, ond sy'n cynnwys negeseuon cyson wrth ddelio ag argyfwng cenedlaethol megis COVID.
- Er ei bod yn bwysig myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd yn ystod y llynedd, mae'n amlwg bellach fod gennym fwy o wybodaeth am y pandemig hwn a'i ddull o ledaenu. Mae angen i bobl fod yn yr awyr agored, ac mae'r risg o drosglwyddo'r feirws yn yr awyr agored yn ddibwys. Cafodd llawer o ofnau cymunedau lleol o gontractio COVID gan ddefnyddwyr cefn gwlad eu gorbwysleisio gan wleidyddion, ac arweiniodd hyn at wrthdaro diangen rhwng defnyddwyr cefn gwlad a pherchnogion tir a chymunedau lleol. Mae'r mater o niferoedd mwy yn defnyddio cefn gwlad, a'r angen i reoli, cefnogi a darparu ar gyfer hyn, yn fater enfawr y mae angen ei gefnogi trwy addysg o leiaf cymaint â thrwy orfodaeth.
- Pan sonnir am fuddsoddi mewn mynediad, mae pobl yn meddwl yn reddfol am seilwaith. Mae angen buddsoddiad mewn pobl i reoli mynediad, e.e. wardeiniaid, gan fod y problemau mynediad a wynebir ar dir preifat yn wahanol iawn i'r rhai mewn Parciau Cenedlaethol.
- Mae yna ran arall o'r darlun COVID hwn sydd hefyd yn ymwneud ag ansawdd yr awyr agored mewn ardaloedd mwy trefol ac o gwmpas trefi. Yn ogystal â Chymru Wledig, gall atebion seiliedig ar natur mewn ardaloedd

trefol ddarparu'r un buddion lluosog i bobl. Mae'r pandemig wedi dangos y diffyg cydraddoldeb mewn rhai lleoedd, ac mae angen i ni ddeall rhagor am effaith y diffyg mannau gwyrdd agored ar y cymunedau hyn. Gall mannau gwyrdd o safon mewn trefi/o gwmpas trefi roi dewis amgen i boblogaethau trefol yn hytrach na theithio ymhellach i ffwrdd.

- Sut y mae Cymru yn cipio'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o fewn sefydliadau/sectorau ar wahân i feithrin y ddealltwriaeth genedlaethol?
- Fel y dywedodd Helen Pye, mae ar nifer mwy o bobl sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau mewn mwy o leoedd angen adnoddau i amddiffyn cyfleoedd hamdden ar gyfer iechyd a llesiant, twristiaeth awyr agored a'r amgylchedd – a yw hyn yn cael ei gydnabod? A oes yna dystiolaeth i ddatblygu'r achos dros adnoddau?
- Yr haf diwethaf, bu APC Bannau Brycheiniog yn gweithio gydag CNC yn darparu 'llysgenhadon mynediad' yn ardal y Rhaeadr, swyddi a gymerwyd gan ddarparwyr awyr agored di-waith. Yn ôl yr adborth, roedd eu gwybodaeth leol a'u sgiliau pobl wedi osgoi llawer o broblemau posibl.

## Cyfraniadau Ysgrifenedig

Mark Weston: rhannodd rai o fentrau mwyaf diweddar Cymdeithas Ceffylau Prydain â'r aelodau. Tynnodd sylw at yr ap digwyddiadau ceffylau a oedd newydd ei gyhoeddi – gallai marchogion gofnodi manylion digwyddiadau a rhannu gwybodaeth am y damweiniau yr adroddwyd amdanynt yn rhan o ymgyrch Deadslow. Gwneud sylwadau mewn perthynas â chynlluniau Teithio Llesol i sicrhau nad oedd marchogion yn cael eu heithrio neu'n cael yr effaith o greu rhwystr.

**6.** Byddai 2026 yn ddefnyddiol pe gallai LIC roi rhywfaint o gadarnhad na fyddai'r dyddiad cau yn cael ei weithredu yng Nghymru. Roedd ymchwilwyr yn parhau i wneud gwaith ymchwil a chyflwyno ceisiadau er bod LIC wedi nodi ei bwriad i beidio â'i weithredu, ond roedd yn parhau i fod yn y llyfrau statud.

Ymgyrch Ride Out – gobeithid y byddai cyfyngiadau COVID yn galluogi reidiau a fyddai'n codi arian gwerthfawr i'w ailfuddsoddi i wella llwybrau.

Nododd Adrian Walls fod nifer o awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd mewn ceisiadau gorchymyn llwybr – baich gwaith ar awdurdodau. Effaith COVID o ran hysbysiadau

gorchmynion mapiau a thair ystad dai wedi'u hoedi am fod gorchmynion gwyro wedi'u hoedi. Roedd cyllid wedi dod ar gael, ond nid oedd gan yr awdurdodau y lefelau staffio gofynnol i fynd allan a chyflawni'r gwaith.

Dywedodd Simon Pickering wrth y Fforwm am gyllid a oedd ar gael yn dilyn cymeradwyo'r gyllideb. Roedd Cyllid cyfalaf ar gael o dan y Grant Gwella Mynediad (AIG). Byddai'r arian ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn cynyddu tua 10% y flwyddyn ganlynol er mwyn parhau i ddatblygu'n gyfochrog â'r costau cynyddol a'r ymdrechion i wella, ynghyd ag i ariannu gwaith yn ymwneud â gwella bioamrywiaeth; roedd yna hefyd gronfa gyllid fwy ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol.

Roedd Rebecca Brough yn croesawu cyllid seilwaith ond hefyd yn clywed problemau awdurdodau lleol ynghylch yr angen am gyllid refeniw. Gofynnodd a oedd yna ffordd i sicrhau swyddi gwyrdd ac uwchsgilio.

Gwenda Owen: nododd fod hyn yn wir nid yn unig yn y sector hwn ond ym mhobman; roedd ALlau yn ei chael yn anodd cyflawni oherwydd nad oedd ganddynt y cyllid. Dwyn adrannau ynghyd; cwestiynu a oeddem yn ariannu llai.

**Sylwadau yn y swyddogaeth sgwrsio:**

Adrian Walls: hoffwn ddiolch yn arbennig i LlC am y Grant Gwella Mynediad. Bu'n achubiaeth i bob awdurdod i gyflawni gwelliannau.

Ruth Jenkins: roedd adnoddau staff i reoli arian a oedd ar gael yn y byrdymor bob amser yn broblem i CNC hefyd, ond roedd yn bosibl cyfalafu amser staff ar gyfer gwario cyllid cyfalaf.

Nododd Simon Pickering fod sicrhau cyllid refeniw yn fwy heriol, a'i fod yn haws cael gafael ar gyfalaf; dylid parhau i ddadlau dros gyllid. Roedd LlC wedi bod yn gymharol llwyddiannus yn gweithio gyda pharciau cenedlaethol, ac roedd ganddi gyllid ychwanegol i gydnabod gwaith ychwanegol yr oedd angen ei wneud i ymateb i faterion uniongyrchol a thwristiaeth gynaliadwy yn fwy cyffredinol. Gan weithio gydag CNC mewn perthynas ag adferiad gwyrdd, roedd prosiectau mynediad wedi cael lle amlwg iawn. Yn ddiamau, roedd yna ragor y gellid ei wneud.

| | |
|---|---|
| | Nododd y Cadeirydd fod cael gafael ar y bobl hynny a oedd yn gwneud y penderfyniadau yn haws yng Nghymru, ni waeth beth fo'r cyllid. |
| **7.** | **Edrych i'r Dyfodol a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**<br><br>Dyddiad arfaethedig y cyfarfod nesaf, 6 Gorffennaf 2021<br><br>Yr aelodau i roi gwybod pe byddai yna unrhyw broblemau |